# CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd W.A. Hennessy, Dr. I.J. Johnson a N.C. Thomas.

## C162 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob parti i gyfarfod cyntaf Cabinet Bro Morgannwg i ddefnyddio ateb hybrid newydd y Cyngor.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw a'i gofnodi ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i’r holl gyfranogwyr sicrhau, os ydynt yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allent actifadu eu gweithrediad cais i siarad priodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r gweithrediad 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r gweithrediad 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## C163 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

## C164 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C165 DIWEDDARIAD CH2: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU 2023/24 - CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cadeirydd wedi holi ynghylch amseriad yr adolygiad i gynaliadwyedd ariannol a chytunodd y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ystyried y byddai'n ofynnol i'r Cyngor bennu ei gyllideb ym mis Mawrth. Roedd y Pwyllgor wedi cyfeirio'r mater i’r Cabinet i'w oruchwylio.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD - nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C166 CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (MEDI 2023) (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2023. Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio materion o'r fath o fewn telerau eu cylch gwaith.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet ystyried argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys Traciwr Statws Blaenoriaeth. Dywedodd yr Arweinydd fod gwerth edrych ar hynny ond nododd fod yn rhaid i'r Pwyllgor oruchwylio'r adroddiad cyfan ac y byddai'n trafod y mater gyda'r Cadeirydd i gytuno ar ffordd ymlaen.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – nodir sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac y byddai'r Arweinydd yn trafod cynnwys Traciwr Statws Blaenoriaeth gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C167 ADOLYGIAD O RANBARTHAU PLEIDLEISIO A LLEOEDD BRO MORGANNWG 2023 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod ystod o sylwadau wedi'u gwneud yn ystod cyfarfod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ddaearyddiaeth y dosbarthiadau etholiadol eu hunain yn hytrach na'r gorsafoedd pleidleisio, yn enwedig gorsafoedd pleidleisio yn y Bont-faen. Ystyriwyd ei bod yn briodol aros am ganlyniad yr Adolygiad Cymunedol parhaus cyn gwneud unrhyw fân newidiadau i gyfansoddiad dosbarthiadau etholiadol.

O ran y gorsafoedd pleidleisio eu hunain, gwnaed sylwadau ynghylch diffyg gorsaf bleidleisio yn ward Plymouth ym Mhenarth ar gyfer dosbarthiadau JE0 a JF0, a gwnaed cais i asesu a oedd unrhyw opsiynau y gellid eu cynnwys yn lle gorsafoedd yn Eglwys y Bedyddwyr Stanwell Road ac Eglwys yr Holl Saint a oedd yn agos at y ffin ond heb fod yn ward Plymouth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, ni chanfuwyd unrhyw ddewis arall ac, o'r herwydd, y byddai'r drefn arferol yn parhau. Yn dilyn hynny, sefydlwyd bod Clwb Bowlio Windsor yn opsiwn a oedd yn gallu cael ei symud ymlaen. O'r herwydd, argymhelliad y gellid ei gynnig pan fyddai'r mater yn cael ei ystyried gan y Cabinet fyddai’r trefniadau canlynol ar gyfer ward Plymouth:-

- Byddai Neuadd Gymunedol Penarth Isaf yn parhau i wasanaethu dosbarth etholiadol JJ0.
- Byddai Canolfan Gymunedol Cwrt-Y-Vil yn parhau i wasanaethu dosbarth etholiadol JK0.
- Byddai Clwb Bowlio Windsor yn dod yn orsaf bleidleisio newydd i wasanaethu dosbarthiadau etholiadol JF0 a JE0, sy'n gorwedd yn union wrth ymyl dosbarth etholiadol JE0.
- Byddai Eglwys y Bedyddwyr Stanwell Road yn parhau i wasanaethu dosbarth etholiadol JD0 ar gyfer St Augustine yn unig, yn hytrach na gorsaf ddwbl.
- Byddai Neuadd Eglwys yr Holl Saint yn parhau i wasanaethu dosbarth etholiadol LA0 ar gyfer Stanwell yn unig, yn hytrach na gorsaf ddwbl.

Byddai'r mater yn mynd i'r Cyngor Llawn i wneud penderfyniad terfynol a’r gorsafoedd pleidleisio yn cael eu hadolygu’n gyson, yn enwedig mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i orsafoedd pleidleisio. Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod hygyrchedd trafnidiaeth yn ystyriaeth bwysig a bod yn rhaid i unrhyw orsaf bleidleisio fod yn gwbl hygyrch.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) cyfeirio’r adroddiad gerbron y Cabinet i’r Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2023 fel eitem frys, gan gydnabod bod y mater eisoes wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

(2) nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, gan gydnabod y byddai unrhyw newidiadau i ddosbarthiadau etholiadol cyn canlyniad yr Adolygiad Cymunedol parhaus yn gynamserol.

(3) tynnu sylw at y trefniadau diwygiedig ar gyfer ward Plymouth fel y nodwyd, wrth gyfeirio'r mater i'r Cyngor Llawn ei ystyried ar 4 Rhagfyr, 2023.

(4) cytuno ar ddefnydd y weithdrefn frys fel y nodir yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor i gyfeirio'r adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr, 2023 i'w ystyried.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-4) Ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod i alluogi'r mater gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr, 2023.

**C168 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams, a Gadeiriodd y Panel, at y trafodaethau a gafwyd ynghylch y Siarter Rhianta Corfforaethol a oedd yn fenter gan Lywodraeth Cymru a ddyluniwyd i Awdurdodau gofrestru a gwella safonau penodol o ofal Rhianta Corfforaethol. Wedi hynny roedd ymateb y Panel wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Trafododd y Panel hefyd bresenoldeb ysgolion a'r materion cymhleth sy'n aml yn peri i bobl ifanc golli'r ysgol a chlywed gan wahanol asiantaethau yn cydweithio i fynd i'r afael â materion presenoldeb. Ystyriwyd hefyd y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ynghylch nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

PENDERFYNWYD – nodi cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2023.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C169 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd â'r diben o hysbysu'r Cabinet ynghylch arfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 21 Mawrth, 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD defnyddio Pwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

**C170 ENWEBIADAU AR GYFER SWYDDOGAETHAU AELOD ANNIBYNNOL O'R BWRDD SY'N CYNRYCHIOLI AWDURDODAU LLEOL I FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO A CHYD-BWYLLGOR CENEDLAETHOL Y GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL A MAETHU CYMRU (AG/BA) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno enwebiad i ddau gorff perthnasol Cyngor Bro Morgannwg cyn y dyddiadau cau cysylltiedig ym mis Rhagfyr. Cynigiwyd enwebiadau addas ar gyfer ymgeiswyr gyda dyfnder y profiad sydd ei angen ar gyfer y ddwy rôl gyfrifol.

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r Cabinet am ei enwebiad a dywedodd fod y Cynghorydd Lloyd-Selby wedi profi ei hyfedredd a'i gallu i ymdrin â materion iechyd a'i bod yn hapus i eilio'i henwebiad, yn yr un modd ag yr oedd y Cynghorydd Wilson. Roedd y Cynghorydd Sivagnanam yn hapus i eilio enwebiad y Cynghorydd Williams.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) mai'r Cynghorydd Susan Lloyd-Selby yw enwebiad Awdurdod Lleol Bro Morgannwg am rôl Aelod Bwrdd Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

(2) yn ddarostyngedig i Benderfyniad (1), cyflwyno CV a datganiad personol cysylltiedig y Cynghorydd Lloyd-Selby yn nodi sut y mae'n bodloni'r Fanyleb Person ar gyfer y rôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro cyn y dyddiad cau ar 15 Rhagfyr 2023.

(3) mai'r Cynghorydd Eddie Williams yw enwebiad Awdurdod Lleol Bro Morgannwg i Gydbwyllgor Cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

(4) yn ddarostyngedig i Benderfyniad (3), darparu manylion yr enwebiad i Maethu Cymru cyn y dyddiad cau ar 8 Rhagfyr 2023 i fwrw ymlaen â sefydlu cyfarfod cyntaf.

(5) cytuno ar ddefnydd y weithdrefn frys fel y'i nodir yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor i'w chytuno i alluogi cyflwyno enwebiad i'r ddau gorff

perthnasol o Gyngor Bro Morgannwg cyn y dyddiadau cau cysylltiedig ym mis Rhagfyr.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Cyflwyno'r enwebiadau gan y Cyngor cyn y dyddiadau cau perthnasol.

**C171 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd â’r diben i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2024-25 at ddibenion ymgynghori.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn ddogfen bwysig i fesur ac arwain gweithgareddau wrth symud ymlaen. Roedd Cydnerthedd Sefydliadol yn her hanfodol allweddol gan ei bod yn bwysig cael pobl â'r sgiliau iawn yn y strwythur sefydliadol iawn i allu cyflawni yn erbyn llawer o heriau a wynebai’r Awdurdod. Byddai'r gwaith ar y Cynllun Corfforaethol newydd yn cychwyn yn fuan hefyd. Byddai'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn mynd i bob Pwyllgor Craffu fel rhan o'r rhaglen ymgynghori ehangach.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (Atodiad A i’r adroddiad) fel sail ar gyfer ymgynghori yn unol â’r hyn a ddisgrifir yn yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo’r dull ymgynghori a'r amserlen fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Nodi’r dull a gymerwyd i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a’r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol.

(4) Cyfeirio’r adroddiad i’r holl Bwyllgorau Craffu fel rhan o'r rhaglen ymgynghori yn gofyn am rannu unrhyw sylwadau â’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol er mwyn llywio diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, cyn i’r Cabinet ystyried drafft terfynol maes o law.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau y gellir ymgynghori ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft.

(2) Sicrhau bod ymgynghori effeithiol yn digwydd o fewn yr amserlenni angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi’r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

(3) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o sut y datblygwyd y Cynllun Cyflawni Blynyddol a sut y byddai'n darparu'r fframwaith ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol.

(4) Sicrhau bod yr holl Bwyllgorau Craffu yn cael cyfle i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ac i roi adborth yn rhan o'r rhaglen ymgynghori.

**C172 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2025/26 (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar drefniadau derbyn ysgolion yr Awdurdod Lleol yn ôl gofynion Cod Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – cymeradwyo polisi derbyn ysgolion drafft yr Awdurdod Lleol yn Atodiad A ar gyfer ymgynghori ar drefniadau derbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer pob ysgol gymunedol ym Mro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/2026. Byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024 er mwyn ystyried a chymeradwyo trefniadau derbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/2026.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Nododd paragraff 2.3 (tudalen 6) o'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru) Gorffennaf 2013 "Rhaid ymgynghori ynghylch trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir rhwng 1 Medi ac 1 Mawrth, a'u pennu erbyn 15 Ebrill, yn y flwyddyn ysgol (y 'flwyddyn benderfynu) sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi".

**C173 STRATEGAETH GOED CYNGOR BRO MORGANNWG (WCA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried drafft cyntaf Strategaeth Coed Cyngor Bro Morgannwg 2024/39 a chytuno ar drefniadau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson, er bod y Strategaeth ar ffurf Ddrafft, ei bod yn drylwyr ac nad oedd wedi ei rhuthro, gyda mewnbwn sylweddol gan nifer o Swyddogion ac arbenigwyr allanol. Yn gysylltiedig â'r Strategaeth roedd Adroddiad Technegol a oedd yn cynnwys methodoleg, astudiaeth o ganopi coed a gorchudd daear. Bu'r Strategaeth hefyd yn ystyried manteision coed wrth leihau'r tebygolrwydd o lifogydd yn sgil dŵr wyneb gormodol o ddŵr ffo, dileu llygredd aer,

dal carbon a gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Argymhellwyd ailadrodd yr arolwg hefyd ymhen deng mlynedd.

Er mwyn sicrhau y gallai cynnydd mewn canopi coed ddigwydd, bu'n rhaid dadansoddi lle y gellid plannu coed, ystyried amddifadu'r ardal, effaith lleihau llygredd aer a gwella ansawdd mannau gwyrdd. Byddai defnyddio gwefannau fel Treezilla yn monitro iechyd coed.

Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig wrth godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coed, gyda llawer o grwpiau allanol ym Mro Morgannwg a'r cyffiniau â diddordeb yn y mater. Fe wnaeth coed wella ymdeimlad o le, gwella lles a gwneud trefi a phentrefi yn lleoedd deniadol i fyw.

Nododd y Strategaeth nifer o nodau ac amcanion, gan gynnwys cynnydd net o 5% i’r canopi erbyn 2039, yn ogystal ag edrych ar gyd-destun polisi fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Anogodd y Cynghorydd Wilson randdeiliaid allanol i fynegi eu barn fel rhan o'r ymgynghoriad allanol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod llawer iawn o waith wedi’i wneud ar y Strategaeth Ddrafft, gyda rhai elfennau strategol cyffrous wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran Creu Lleoedd, a’i bod yn edrych ymlaen at weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at Baragraff 2.15 yr adroddiad a gyfeiriodd at sicrhau bod y goeden iawn yn cael ei phlannu yn y lle iawn, a oedd yn ystyriaeth mor bwysig. Cytunodd y Cynghorydd Perkes â’r Cynghorydd John.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod angen i’r Aelodau gydweithio i groesawu coed fel asedau yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Cytuno mewn egwyddor ar Strategaeth Coed Ddrafft Bro Morgannwg 2024-39, yn Atodiad B i'r adroddiad.

(2) Gwneud y Strategaeth ddrafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 12 wythnos.

(3) Cyflwyno’r Strategaeth ddrafft fel rhan o'r broses ymgynghori i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w hystyried a chael sylwadau arni.

(4) Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori 12 wythnos gan y Cabinet a chytuno ar Strategaeth Coed olaf Bro Morgannwg 2024/39.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cytuno ar ddechrau proses i ddatblygu fframwaith cadarn ar gyfer pob penderfyniad a gweithgaredd sy'n gysylltiedig â choed ym Mro Morgannwg dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth Coed ddrafft yn nodi safonau ar gyfer rheoli'r adnodd coed o dan stiwardiaeth Cyngor Bro Morgannwg a gydymffurfiwyd â chodau ymarfer a gydnabyddir yn genedlaethol ac a fyddai'n lliniaru risgiau trydydd parti, yn ogystal â chynyddu'r canopi coed trefol a helpu i ddiogelu coed a choetiroedd fel
ased naturiol gwerthfawr.

(2) Sicrhau bod croestoriad eang o safbwyntiau yn cael eu gofyn ar y Strategaeth.

(3) Gofyn am farn gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

(4) Ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y Strategaeth derfynol.

**C174 MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN UN BRYS -**

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd yn y cofnodion, yn cael ei ystyried.

**C175 DIWEDDARIAD AR Y PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (CYF) –- (Mater brys oherwydd yr angen i gytuno ar opsiwn a ffefrir i lywio penderfyniadau allweddol y mae'n ofynnol eu gwneud wrth fwrw ymlaen â chyfarfodydd cyhoeddus hybrid ac fe gyfeirir argymhelliad y Pwyllgor at y Cabinet i'w ystyried ymhellach)**

Cyflwynwyd y cyfeiriad brys gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Tachwedd 2023.

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried adroddiad ar y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad diwygiedig yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023 cyn gwneud argymhellion i'r Cabinet ei ystyried ar 7 Medi 2023 lle roedd y Polisi yn cael ei fabwysiadu ond bod cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn cael eu cynnal ar sail hybrid a'i ddarlledu'n fyw.

Darparodd yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2023 ddiweddariad mewn perthynas â gweithredu'r system hybrid Easy Conf ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor a dechrau dull graddol o gyflwyno cyfarfodydd cyhoeddus hybrid.

Byddai swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r cyfarfodydd hybrid a'r Aelodau sy'n cymryd rhan naill ai'n bersonol neu o bell, a fyddai'n parhau yn ystod y cyfnod prawf. Roedd yr Aelodau wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r system hybrid newydd i geisio lleihau gwallau defnyddwyr wrth symud ymlaen, ond roedd cymhlethdod cynyddol o ran darparu cyfieithu Cymraeg mewn cyfarfodydd penodol, sgriniau ychwanegol, defnyddio gliniaduron, ac ati.

Roedd gobaith y byddai cyfarfod cyntaf y Cyngor Llawn gan ddefnyddio'r system hybrid ym mis Ionawr 2024, ond cydnabuwyd y byddai'n rhaid gwneud newidiadau i Siambr y Cyngor. Roedd cyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn yn y Siambr yn cynnwys 47 o Aelodau, roedd 54 o Aelodau erbyn hyn. Roedd siâp a dimensiynau'r Siambr yn peri heriau o ran cynnal Aelodau ac roedd hefyd yn ofynnol i Swyddogion fod mewn cyfarfodydd, yn ogystal â gorfod cadw at ddeddfwriaeth benodol fel gofynion Iechyd a Diogelwch a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Trafododd y Pwyllgor ystod o opsiynau posibl, pob un yn amlinellu gwahanol lefelau meddiannaeth (yn seiliedig ar Aelodaeth bresennol y Cyngor a’r Aelodaeth ragweledig a nifer y Swyddogion sy'n cefnogi), dimensiynau dodrefn presennol a newydd mewn gwahanol gynlluniau, a phenderfynodd ddefnyddio Opsiwn F gyda chapasiti o 40 o leoedd yn y Siambr, gan ddefnyddio’r dodrefn presennol a nodir ar gynllun newydd (opsiwn cylchol). Ar hyn o bryd nid oedd yn hysbys faint o'r 54 o Aelodau fyddai'n dymuno dod i fynychu pob cyfarfod wyneb yn wyneb, ond roedd arwyddion cynnar yn awgrymu na fyddai pawb yn gwneud hynny ac felly nid oedd angen gwario’n ddiangen tra bod yr Awdurdod yn wynebu pwysau cyllidebol.

Cafwyd trafodaeth y dylai'r Siambr allu darparu ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor, a deallodd yr Arweinydd hynny, ond roedd posibilrwydd y gellid gwario arian i dalu am seddi gwag. Canolbwyntiodd trafodaeth bellach ar orfodi holl Aelodau'r Cyngor i fod yn bresennol yn y Siambr ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, ond tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith nad oedd gofyniad o'r fath mewn deddfwriaeth gyfredol ac felly nid oedd ym Mholisi MLM y Cyngor.

Atgoffodd y Cynghorydd John ei gymheiriaid fod 12 i 16 o Swyddogion yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor hefyd, a bod rhaid ystyried hyn pe bai cyfarfodydd personol yn cael eu cynnal, a bod y Comisiwn Ffiniau yn ystyried newidiadau pellach posibl ar hyn o bryd y byddai'n rhaid darparu ar eu cyfer hefyd. Cytunodd yr Arweinydd fod y rhain yn ystyriaethau dilys a phe bai’r Opsiwn i wario £136,000 wedi ei gynnig, y byddai'r dodrefn presennol yn y Siambr wedi ei ail-bwrpasu a’i ddefnyddio mewn lleoliadau eraill yn y Cyngor, fel yr Ystafelloedd Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod y safbwyntiau a'r opsiynau dan ystyriaeth wedi'u nodi'n glir yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a bod cydnabyddiaeth bod ffordd y Cyngor o wneud busnes wedi newid a’r dechnoleg a ddefnyddir i wneud y busnes hwnnw hefyd. Tynnodd sylw at y ffaith mai'r opsiwn a ddewiswyd oedd am gyfnod prawf.

Dywedodd y Cynghorydd Perkes y cafwyd trafodaeth dda yn y cyfarfod a'i fod yn teimlo ei bod yn bwysig cynnal y cyfnod prawf tra bod modd canfod a fyddai Aelodau a Swyddogion yn gallu neu’n dymuno bod yn y Siambr ar gyfer cyfarfodydd gan fod angen ystyried amgylchiadau personol pobl.

Cytunodd y Cynghorydd Sivagnanam â’r Cynghorwyr Williams a Perkes. Dywedodd ei bod yn bwysig bod mor gynhwysol â phosib i bob Cynghorydd o bob cefndir a oedd yn cynnwys deall efallai nad yw pawb am fynychu cyfarfodydd yn bersonol. Roedd TGCh wedi ei defnyddio'n ehangach ers Covid ac roedd yn opsiwn i'w defnyddio i fynychu cyfarfodydd.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) nodi sylwadau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Tachwedd 2023.

(2) cytuno mai Opsiwn F yw’r opsiwn a ffefrir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus hybrid.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.